

# Cynlluniau Iawndal ar gyfer Tenantiaid y Cyngor

## PRYD MAE'R CYNGOR YN TALU IAWNDAL?

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cynnig nifer o gynlluniau iawndal gwahanol ar gyfer tenantiaid y cyngor, ac fel un o'n tenantiaid, efallai bydd angen i chi wneud cais rhywbryd.

Os ydych yn cwrdd â'r rheolau dros wneud cais, yna efallai bydd taliad iawndal yn gymwys ar eich cyfer.

Gallwn ddweud ychydig wrthoch chi am bob un o'r cynlluniau iawndal, ond am wybodaeth bellach ynghylch sut mae pob cynllun yn gweithio a sut i wneud cais, byddai angen i chi gysylltu â'ch Swyddfa Dai Ardal neu Gymdogaeth.

Dyma'r cynlluniau iawndal y gallwch fod yn gymwys ar eu cyfer:

## LWFANS ADDURNO - TENANTIAETH NEWYDD

Pan gynigir tenantiaeth newydd i chi efallai cynigir lwfans addurno i chi. Rhoddir dewis i chi ar sut yr hoffech dderbyn y taliad hwn. Gall fod:

- drwy siec, neu
- efallai eich bod am gael eich cyfrif rhent wedi ei gredydu am gyfanswm y lwfans.

**Mae'n bwysig i chi wybod mai pwrpas y cyfanswm sy'n cael ei dalu i chi yw eich helpu gyda'r gost o addurno'ch cartref. Nid y bwriad yw talu am yr holl gost addurno.**

## LWFANS ADDURNO - ATGYWEIRIADAU LANDLORD

Os ydym yn gwneud atgyweiriadau hanfodol i du fewn eich cartref ac yn achosi difrod i'ch addurn, gallwch fod yn gymwys i wneud hawl am iawndal. Bydd swyddog yn ymweld â'ch cartref, yn asesu'r difrod ac yn eich cynghori ynghylch faint o iawndal y gallwch ei dderbyn.

## IAWNDAL AR GYFER GWELLIANNAU

Os ydych chi am wneud gwelliannau i'ch cartref, bydd rhaid i chi wneud cais am ganiatâd oddi wrthym cyn i chi gychwyn ar unrhyw waith. Os nad ydych yn derbyn ein caniatâd, efallai na fyddwch yn gymwys am iawndal yn hwyrach.

Gellir ond gwneud hawliau am iawndal am welliannau pan rydych yn diweddu'ch tenantiaeth, ac ni ellir talu am bob gwelliant. Pan ddaw'r amser y bydd rhaid i chi adael eich cartref, byddwn yn ymweld â chi ac yn asesu'r gwelliannau rydych wedi eu gwneud.

Os ydych yn meddwl eich bod yn gymwys, gwnewch gais. Mae taliadau'n seiliedig ar raddfa symudol, gan gymryd mewn i ystyriaeth oedran a chost wreiddiol y gwelliant.

Mae ein taflen 'Cynnig Gwell i Denantiaid y Cyngor - eich hawl i gael iawndal am welliannau' yn egluro'r cynllun mewn mwy o fanylder. Am gopi o'r daflen hon, cysylltwch â'ch swyddfa dai leol neu ewch i'n gwefan [www.caerffili.gov.uk](http://www.caerffili.gov.uk)

## IAWNDAL AM GOLLI GWRES

Os oes rhaid i ni stopio'ch system gwresogi i wneud atgyweiriadau hanfodol i'ch dyfais, cynigir gwresogyddion trydanol dros dro i chi gennym wrth i'r gwaith gael ei wneud. Efallai gallwch wneud cais am iawndal i helpu gyda chostau rhedeg y gwresogyddion. Gall y cyfanswm y mae gennych hawl iddo amrywio rhwng misoedd y gaeaf a misoedd yr haf.

## TALIADAU AFLONYDDWCH

Os oes rhaid i ni wneud gwaith atgyweirio yn eich cartref sy'n arwain atoch yn derbyn cynnig o lety dros dro wrth i'r gwaith gael ei wneud, neu os ydych yn aros yn eich cartref yn ystod y cyfnod o waith, efallai byddwch yn gymwys i wneud cais am iawndal am yr aflonyddwch. Bydd yn ddibynnol ar asesiad a bydd cyfanswm yr iawndal a delir yn adlewyrchu'r aflonyddwch.

## HAWL I ATGYWEIRIO

Gallwch ddefnyddio'r cynllun 'hawl i atgyweirio' i hawlio iawndal am rai atgyweiriadau os nad ydym yn eu cyflawni o fewn amserlen benodol.

Gellir ceisio am iawndal dim ond os rydych yn rhoi gwybod am atgyweiriad sy'n effeithio ar eich iechyd neu ddiogelwch ac rydym yn methu ar ddau achlysur i gwblhau'r gwaith atgyweirio o fewn yr amserlen a osodwyd.

Cysylltwch â'ch swyddfa dai leol am ragor o wybodaeth.

## YSWIRIANT CYNNWYS Y CARTREF

Os yw eich cartref yn cael ei ddifrodi gan dân neu lifogydd, neu os ydych chi'n cael eich lladrata, a oes gennych yswiriant cynnwys y cartref i dalu am y difrod neu'r colled?

Mae'r cyngor yn gweithredu **Cynllun Yswiriant Cynnwys y Cartref** ynghyd â chyfraddau ffafriol y gellid eu talu yn wythnosol ynghyd â'ch rhent.

I gael gwybodaeth bellach neu ffurflen gais, cysylltwch ag

**Is-adran Yswiriant a Rheoli Risg Caerffili ar 01443 863430.**

**Neu cysylltwch â'ch Swyddfa Rhenti Lleol ar 01495 811450.**

**- ebost rhenti@caerffili.gov.uk**

Lle mae Cartrefi Caerffili yn teimlo ei fod yn angenrheidiol i yswirio eich cartref er mwyn amddiffyn eich eiddo; mewn sefyllfa anarferol fod eich eiddo yn wag yn ystod y denantiaeth, ni all Cartrefi Caerffili fod yn atebol am unrhyw eiddo coll neu wedi'i ddifrodi o ganlyniad.

## IAWNDAL AM DDIFROD ARALL:

Nid bai'r cyngor yw pob difrod.

- Os yw ein contractwyr wedi achosi difrod i'ch eiddo, yna cysylltwch â'ch Swyddfa Dai Leol, eich Swyddog Cyswllt Tenantiaid enwebedig neu dilynwch y weithdrefn gwyno a restrir yn adran 22. Gwnewch yn si r eich bod yn tynnu lluniau o unrhyw ddifrod a achoswyd, a byddwch yn ymwybodol os gwneir unrhyw hawliad, gwneir taliadau iawndal ar sail indemniad, sy'n golygu y cewch eich dychwelyd yn yr un sefyllfa ag yr oeddech chi ar adeg y difrod, lle bo modd, heb elw ariannol. NID YW'N SETLIAD CYFNEWID YR HEN AM Y NEWYDD.
- Os achoswyd y difrod gan rywbeth mor syml â phibell wedi torri, gallwch hawlio o'ch yswiriant cynnwys cartref, os ydych chi wedi gwneud hyn.